



## **Polisi a Strategaeth Caffael 2018**

## Tabl Cynnwys

1	Polisi Caffael .....	3
2	Strategaeth .....	3
3	Gwelediaeth, nodau ac amcanion .....	5
4	Cyd-destun.....	7
5	Blaenoriaethau Strategol.....	7
5.1	Y Swyddogaeth Graffu .....	7
5.2	Llywodraethu .....	8
5.3	Caffael Corfforaethol .....	8
5.4	Hyfforddiant .....	8
5.5	Cydweithio.....	9
5.6	Busnes Electronig.....	9
5.7	Marchnadoedd.....	10
5.8	Busnesau Bach .....	10
5.9	Buddion i'r Gymuned .....	11
5.10	Moeseg .....	11
5.11	Cydraddoldeb.....	12
5.12	Y Gymraeg.....	13
5.13	Cynaliadwyedd.....	13
5.14	Effeithlonrwydd.....	14
6	Mesurau Perfformiad.....	14
7	Monitro.....	14

# 1 Polisi Caffael

Mae Polisi Caffael Cyngor Bro Morgannwg ("y Cyngor") yn hyrwyddo caffael effeithiol a chynaliadwy ledled y Cyngor. Mae caffael da yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau go iawn yng nghost ac ansawdd gwasanaethau. Mae'n rhoi'r gallu i ni reoli adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol a'u defnyddio lle mae eu hangen.

Ein polisi felly yw:

- i. sicrhau bod ein harferion caffael yn dryloyw ac yn cydymffurfio â'n Cyfansoddiad, ein rheoliadau ariannol a'r gofynion deddfwriaethol sydd arnom. Bydd atebolrwydd bob amser a chaiff dyletswyddau eu rhannu'n glir;
- ii. ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ym mhob mater caffael. Rydym yn cydnabod bod angen gweithredu ar sail gofal o safon uchel ym mhob trafodyn;
- iii. ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael weithio yn unol â'n Strategaeth Gaffael, Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chontract a Chod Ymarfer Caffael;
- iv. meithrin dull caffael proffesiynol. Bydd caffael yn digwydd yn unol â'r safonau moesegol uchaf, gan hyrwyddo cydraddoldeb a thriniaeth deg a defnyddio lefel o arbenigedd masnachol sy'n gymesur ag egwyddorion osgoi costau, cyfyngiant costau a lleihau costau;
- v. datblygu seilwaith caffael cadarn sy'n defnyddio technoleg ac adnoddau modern yn y ffordd orau bosibl;
- vi. cydweithio ag eraill i sicrhau'r grym caffael mwyaf posibl ac ehangu'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau arloesol;
- vii. seilio caffael ar egwyddorion gwerth gorau ac ar ganlyniadau mesuradwy ac effeithiol;
- viii. ceisio bob amser nodi cyfleoedd ar gyfer gwella gwasanaethau, chwilio am werth am arian a hyrwyddo cystadleuaeth; ac
- ix. sbarduno'r economi leol a hyrwyddo'r gwaith o sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol drwy'r broses gaffael.

## 2 Strategaeth Caffael

- i. Diffiniad Caffael Llywodraeth Cymru yw:

“proses trwy ba un y mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid i'r sefydliad yn unig, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan wneud cyn lleied â phosibl o niwed i'r amgylchedd.

- ii. Fodd bynnag, mae'n fwy na dim ond prynu pethau. Mae'n cynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan, o benderfynu ar yr anghenion i gyflawni'r amod olaf, talu a rheoli contractau.
- iii. Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfran fawr o'i adnoddau ar gaffael. Mae dyletswydd arnom i lywodraethu'n dda, darparu gwasanaethau ar sail safonau cost ac ansawdd clir ac yn ôl y dulliau mwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol posibl.
- iv. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi Egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru

[https://llyw.cymru/caffael-yn-y-sector-cyhoeddus?\\_ga=2.91521374.51654578.1612267258-193478373.1594369166](https://llyw.cymru/caffael-yn-y-sector-cyhoeddus?_ga=2.91521374.51654578.1612267258-193478373.1594369166)

Mae'r polisi'n sefydlu 10 egwyddor.

- **Strategol** Dylid cydnabod a rheoli caffael fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu ac yn deall gwariant, sy'n dylanwadu ar waith cynllunio cynnar dylunio gwasanaethau ac sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau i ategu'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.
- **Adnoddau proffesiynol.** Dylai gwariant caffael fod yn destun lefel o gyfranogiad a dylanwad proffesiynol priodol, a dylid mabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol fan leiaf am bob £10m o wariant ledled y sector cyhoeddus ehangach.
- **Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol.** Dylid ystyried mai Gwerth am Arian yw'r cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan nid yn unig o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o safon i'r sefydliad, ond hefyd o ran y budd i gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol.
- **Buddion i'r Gymuned** Rhaid i sicrhau budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn ystyriaeth annatod yn y broses gaffael.
- **Cystadleuaeth agored, hygyrch.** Dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i gael contract yn agored i'r holl gyflenwyr ac nad yw cyflenwyr lleol, llai yn cael eu hatal rhag ennill contractau'n unigol, fel consortia, na drwy rolau o fewn y gadwyn gyflenwi.
- **Prosesau Safonol Symlach.** Dylai prosesau caffael fod yn agored ac yn dryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a systemau cyffredin a ddefnyddir i leihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion i gyflenwyr.

- **Cydweithio** Dylid mynd i'r afael â meysydd gwariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylebau safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i sefydlu egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.
- **Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi.** Dylid gwella'r ddeialog gyda chyflenwyr er mwyn helpu i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr, ac i sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.
- **Datblygu a Gweithredu Polisi** Defnyddio sy'n ategu'r gwaith o gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).
- **Mesur ac Effaith.** Yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau caffael i ategu'r gwaith o sicrhau gwelliant parhaus, a rhannu enghreifftiau o arfer da a gwael yn agored.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi pob un o'r deg egwyddor.

- v. Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn tirwedd gaffael sy'n newid yn barhaus ac a arweinir gan agenda ar gyfer gwella. Mae technoleg newydd, demograffeg newidiol, ymwybyddiaeth gynyddol o faterion cynaliadwyedd, newid deddfwriaethol a'r ymdrech i sicrhau effeithlonrwydd (sy'n angenrheidiol ar adeg o bwysau ariannol cynyddol) i gyd yn trawsnewid y byd caffael cyhoeddus yn gyflym. Mae'r newidiadau hyn yn creu heriau y mae'n rhaid i ni ymateb iddynt; maent hefyd yn cynnig cyfleoedd y gallwn elwa arnynt.
- vi. Nod y Strategaeth Gaffael hon yw sicrhau bod cynllunio caffael yn ategu amcanion y Cyngor. Mae'n sicrhau ymrwymiad i gaffael effeithiol gan aelodau a swyddogion ar bob lefel ac mae'n rhoi ffocws corfforaethol wrth gydlynw gweithgarwch caffael. Mae'n mapio'r ffordd ymlaen o ran diwygio a gwella ein swyddogaeth gaffael. Mae'n rhoi arweiniad o ran:
  - caffael doethach sy'n cyfrannu'n sylweddol at ein targedau effeithlonrwydd;
  - cydweithio â phartneriaid, ac ar draws yn ogystal ag o fewn sectorau;
  - cynaliadwyedd, gan ei gynnwys wrth wraidd ein prosesau caffael; a
  - defnyddio technoleg newydd ac offer a thechnegau caffael gwell.
- vii. Mae'n cydnabod pwysigrwydd caffael effeithiol wrth gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae'n sefydlu'r fframwaith ar gyfer cyflawni holl waith caffael y Cyngor. Dyma'r modd y cyflawnir ein Polisi Caffael.

### 3 Gweledigaeth, nodau ac amcanion

- i. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn seiliedig ar y canlynol:

- gwneud y cwsmer yn ganolbwynt;
  - cydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru;
  - gwneud y defnydd gorau o adnoddau; ac
  - ymgysylltu â'r gweithlu.
- ii. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)<sup>1</sup> yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn "gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain".
- iii. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno pum ffordd o weithio y mae angen eu hymgorffori yn y ffordd y mae sefydliadau'n gweithio er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus. Y pum ffordd o weithio yw:
- ystyried y tymor hir;
  - mabwysiadu agwedd integredig;
  - cynnwys pobl;
  - gweithio mewn ffordd gydweithredol; a
  - deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau a'u hatal.
- iv. Mae'r ffyrdd hyn o weithio yn amlwg drwy gydol y Polisi a'r Strategaeth hon, sy'n rhan o ddull y Cyngor o gynllunio integredig, gan sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf. Y saith nod yw:
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.
  - Cymru lewyrchus;
  - Cymru gydnerth;
  - Cymru iachach;
  - Cymru fwy cyfartal;
  - Cymru o gymunedau cydlynol; a
  - Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- v. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor<sup>2</sup> ("y Cynllun") yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y Fro fel lle sy'n cynnwys "Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair" ac yn dangos sut rydym yn cyfrannu at y Ddeddf.
- vi. Mae gennym bedwar canlyniad Llesiant yr ydym eisiau eu cyflawni ar gyfer ein dinasyddion. Mae dau amcan i bob canlyniad a chyfres o gamau gweithredu y byddwn yn eu cyflawni i sicrhau'r canlyniad. Bydd y Polisi a'r Strategaeth hon yn ategu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau hyn, sef:
- Bro gynhwysol a diogel;
  - Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol;
  - Bro Uchelgeisiol gyda Diwylliant Byw; a
  - Bro Iach ac Actif.

<sup>1</sup> [Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

<sup>2</sup>

Dyma'r amcanion:

- Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol.
  - Cynnig cartrefi safonol a chymunedau diogel.
  - Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
  - Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd.
  - Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.
  - Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.
  - Annog a hyrwyddo bywyd actif ac iach.
  - Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw'n annibynnol.
- vii. Mae'r Cynllun yn nodi'n fanwl y gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu gwneud i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer ein dinasyddion a'n cymunedau a sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gyflawni'r wyth amcan llesiant. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ac mae'n rhoi ystyriaeth i gyllid tebygol yn y dyfodol ac ystod eang o wybodaeth am anghenion y boblogaeth leol a'r galw am wasanaethau.
- viii. Mae'r Strategaeth Gaffael yn disgrifio sut y bydd y caffael yn ategu'r rhain. Mae'n dangos y bydd y Cyngor yn sefydlu arferion llywodraethu da ar gyfer y swyddogaeth gaffael. Byddwn yn gweithio gydag eraill sy'n rhannu ein gwerthoedd corfforaethol ac sy'n gallu cyfrannu atynt. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth ac yn cael gwybodaeth adeiladol am sut rydym yn gweithredu. Byddwn yn gweithio gyda'r farchnad i wella'n dulliau gweithredu, a byddwn yn sicrhau gwerth am arian ar draws yr holl wasanaethau drwy weithredu mewn ffordd gost-effeithiol ac effeithlon.

## 4 Cyd-destun

Mae gan y Cyngor Uned Gaffael gorfforaethol yn y Gwasanaethau Ariannol (Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau). Mae'r swyddogaeth gaffael sylfaenol wedi'i datganoli i Gyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am wario eu cyllideb. Mae'r Uned Gaffael yn rhoi cyngor proffesiynol a thechnegol i Gyfarwyddiaethau.

## 5 Blaenoriaethau Strategol

### 5.1 Swyddogaeth Caffael

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd strategol caffael. Mae'n gymhwysedd craidd sy'n effeithio ar bob agwedd ar y Cyngor. I gydnabod hyn, mae'r Strategaeth Gaffael yn hyrwyddo'r gwaith o gymhwyso'r rhesymeg a'r egwyddorion a argymhellir gan Egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>3</sup> a'i nod yw sefydlu mecanwaith a diwylliant sy'n cynnwys caffael arloesol a gwerth ychwanegol.

## 5.2 Llywodraethu

- i. Yr aelodau a'r uwch dîm rheoli yw perchnogion y Strategaeth hon. Maent yn cynnig arweiniad, ymrwymiad i osod safonau ansawdd trwyadl ac yn sefydlu amgylchedd caffael cadarn ac effeithiol. Maent yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o alinio penderfyniadau caffael â'n hamcanion corfforaethol ac wrth fonitro perfformiad caffael. Mae'r Cyngor yn goruchwyllo'r swyddogaeth gaffael, gan sicrhau ei fod yn craffu ar brosesau caffael a monitro'r canlyniadau sy'n deillio o benderfyniadau allweddol o ran prynu.
- ii. Bydd uwch reolwyr yn hyrwyddo Polisi a Strategaeth Gaffael y Cyngor ac yn noddi mentrau caffael. Maent yn chwarae rôl strategol o ran sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontractau a Chod Ymarfer Caffael gan weithio felly tuag at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

## 5.3 Caffael Corfforaethol

Bydd yr Uned Gaffael yn gwneud y canlynol:

- i. arwain y gwaith o wella safonau caffael. Caiff gwybodaeth am gontractau a gwybodaeth rheoli ei rhoi i'r Uned er mwyn ei galluogi i oruchwyllo gwaith prynu datganoledig a gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd o ran gwaith caffael mewnol. Bydd yr holl waith caffael dros drothwy penodedig yn cael ei anfon drwy'r Uned Gaffael ac ni wneir unrhyw bryniant o'r fath heb gysylltu â'r tîm hwn o flaen llaw;
- ii. adolygu gweithgareddau caffael a chymryd rhan flaenllaw wrth ddarparu contractau corfforaethol a phrynu sydd o bwys strategol neu fasnachol penodol; ac
- iii. yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth am faterion a rhwymedigaethau allweddol yn ymwneud â chaffael, gan gynnwys cynaliadwyedd a chydarddoldeb. Bydd yr Uned yn rhoi cyngor ar drothwyon gwerth, yn rhoi arweiniad ar faterion rheoleiddio a pholisi, yn hyrwyddo arfer da ac yn gweithredu fel ategiad defnyddiol i Reolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontractau'r Cyngor a Chod Ymarfer Caffael. Bydd dogfennau caffael safonol yn cael eu cynhyrchu i ddarparu strwythur a chysondeb yn null y Cyngor o ddelio â'r farchnad.

## 5.4 Hyfforddiant

- i. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Wedi'i dargedu at staff perthnasol a chyda phwyslais ar graffter masnachol, byddwn yn datblygu rhaglen hyfforddi sy'n meithrin gallu ac sy'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i staff allu caffael yn effeithiol. Bydd yr Uned Gaffael rhoi gwybod i'r sawl sy'n ymwneud â chaffael am ddatblygiadau newydd ac yn eu cefnogi i gaffael mewn modd arloesol a rhagweithiol.
- ii. Bydd staff yn cael eu haddysgu i ddefnyddio caffael fel offeryn er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau a gwerthuso costau ar sail cyfanswm cost y ddarpariaeth. Byddant yn dysgu rheoli gwariant yn fwy effeithiol drwy ystyried



effaith gorfforaethol tymor hwy eu pryniant.

## 5.5 Cydweithio

- i. Nid oes dull caffael cyffredinol sy'n cwmpasu holl ofynion gwasanaethau. Mae caffael yn digwydd mewn amgylchedd deinamig a nod y Cyngor yw cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r technegau diweddaraf. Rydym yn ymrwymo i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a byddwn yn arfarnu opsiynau a allai fod yn fwy effeithiol na dulliau caffael traddodiadol.
- ii. Un o'r cyfleoedd mwyaf arwyddocaol sydd ar gael yw cydweithio o fewn ac ar draws sectorau. Mae'r dull hwn o weithio yn galluogi gwell defnydd o adnoddau a sgiliau caffael prin, cyfansymu gwariant i greu mwy o bŵer prynu, cyswllt mwy medrus a llai cymhleth â chyflenwyr a lledaeniad arfer gorau, gan gynnwys rhannu gwybodaeth am y farchnad. Gall gwaith caffael cydweithredol yr ymchwiliwyd iddo'n briodol wneud y mwyaf o bŵer prynu a chynig arbedion cost ac effeithlonrwydd sylweddol. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag eraill a thrwy gonsortia i rannu adnoddau a gwneud y mwyaf o'n pŵer prynu i sicrhau arbedion. Gall y Cyngor ymuno â Chynghorau eraill pan fo'n briodol, i sicrhau arbedion maint a manteision cysylltiedig. Bydd y Cyngor yn defnyddio fframweithiau lleol a chenedlaethol ac yn meithrin ymwybyddiaeth drwy'r Cyngor am y trefniadau cydweithredol, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau ohonynt lle ceir budd amlwg. Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu ein perthynas â chonsortia i bennu rheolau sy'n llywodraethu safonau perfformiad ac i sicrhau ein bod yn cael y budd gorau posibl.
- iii. Nod y Cyngor yw cryfhau cysylltiadau ag eraill ac archwilio arbedion maint, arloesedd ac arfer gorau pellach Anogir gweithio ar sail partneriaeth pan fo'r rheiny'n fwy tebygol o sicrhau y darperir y gwasanaethau gorau sy'n gwella'n barhaus yn hytrach na dulliau caffael traddodiadol.
- iv. Mae Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro<sup>4</sup> ("BGC") "Ein Bro – Ein Dyfodol" yn cynnwys ymrwymiad i "archwilio sut y gall polisïau ac arferion caffael gefnogi'r economi leol a diogelu'r amgylchedd lleol". Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid BGC i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

## 5.6 Busnes Electronig

- i. Y nod yw croesawu technoleg fodern a'i defnyddio i wella ein gwasanaethau a chyflawni ein nodau corfforaethol. Mae e-gaffael yn llawer mwy na dim ond awtomeiddio'r gorchymyn prynu a'r broses talu anfonebau. Mae'n ymwneud â gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i wella effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi gyfan.
- ii. Gall mesurau e-gaffael llwyddiannus ddarparu manteision busnes amlwg. Drwy safoni, symleiddio a chyflymu prosesau gweithredol gall y Cyngor gynhyrchu arbedion gwirioneddol, ariannol, sy'n lleddfu pwysau cyllidebol. Gallwn leihau cost adnoddau cynhenid prosesau caffael traddodiadol a helpu i ledaenu arferion caffael gorau.

---

<sup>4</sup> [http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our\\_council/Public-services-board/Public-Services-Board.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/Public-services-board/Public-Services-Board.aspx)

- iii. Mae'r Cyngor yn gweithredu proses e-Gaffael sy'n darparu seilwaith effeithiol i olrhain a rheoli gweithgarwch caffael. Bydd yn rheoli pryniannau gwerth isel, swmpus a phryniannau gwerth uchel strategol yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth gynnal y rheolaethau rheoli angenrheidiol. Bydd yn galluogi'r gwaith o ddadansoddi gwariant drwy nodi faint o arian sy'n cael ei wario ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith, gyda phwy y caiff arian ei wario, pwy yn y Cyngor sy'n gwario arian a threfniadau cytundebol. Bydd hefyd yn nodi cyfleoedd newydd ar gyfer trefniadau corfforaethol a chydweithio.
- iv. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu prosesau e-Gaffael a phan fo'n briodol, yn defnyddio e-gatalogau, cerdyn prynu a hysbysiadau electronig i sicrhau'r budd masnachol mwyaf posibl.

## 5.7 Marchnadoedd

Mae caffael yn digwydd mewn amgylchedd deinamig a nod y Cyngor yw cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r technegau diweddaraf. Mae deall y marchnadoedd yr ydym yn gweithredu ynddynt yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer caffael da. Mae'n ein helpu i brynu'r atebion mwyaf priodol ar gyfer ein hanghenion yn y modd mwyaf cost-effeithiol. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ni hyrwyddo ein gwerthoedd craidd a'n strategaethau cysylltiedig.

## 5.8 Busnesau Bach

- i. Mae'r Cyngor yn cydnabod busnes bach a chanolig ("BBaCh") fel busnes nad yw'n is-gwmni, sy'n bodloni dau o'r meini prawf canlynol:
  - trosiant blynyddol o lai na £25m;
  - asedau gros o lai na £12.5m; neu
  - â llai na 250 o weithwyr.
- ii. Mae adfywio economaidd yn egwyddor graidd o'n Cynllun Corfforaethol ac mae cefnogi busnesau lleol yn elfen bwysig o hynny. Mae'r Cyngor yn credu bod BBaChau sy'n gweithio yn eu cymunedau eu hunain yn creu cyflogaeth a chyfoeth sy'n fwy tebygol o gael eu cadw'n lleol.
- iii. Felly, rydym wedi mabwysiadu "Agor Drysau: Siarter Caffael sy'n Dda i Fusnesau Bach a Chanolig,"<sup>5</sup> sy'n nodi isafbwynt o ran arfer da ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus a BBaChau.
- iv. Ni fydd y Cyngor yn tybio bod cyflenwyr mwy bob amser yn cynnig gwell gwerth am arian. Pa'n fo'n briodol ac o fewn paramedrau deddfwriaethol, bydd y Cyngor yn llunio contractau mewn modd hyblyg sy'n annog busnesau lleol a BBaChau i wneud cais am waith. Byddwn yn cadw ein proses dendro mor syml â phosibl er mwyn lleihau costau i ddarpar gynigwyr.

<sup>5</sup> Agor Drysau: Siarter Caffael sy'n Dda i Fusnesau Bach a Chanolig 2006

- v. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wefan gaffael genedlaethol yn llawn [www.gwerthwchigymru.llyw.cymru](http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru) . Pan nad oes fframwaith yn bodoli eisoes, byddwn yn hysbysebu ein gofynion caffael ar gwerthwchigymru ac yn annog busnesau bach a chanolig lleol sy'n cysylltu neu sy'n edrych ar adrannau Cymorth Busnes ein gwefan ni, i gofrestru ar gwerthwchigymru.

## 5.9 Buddion i'r Gymuned

- i. Gall polisi caffael helpu i fynd i'r afael â phroblemau ac effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a'u cydbwyso. Gall cynnwys Manteision Cymunedol fel gofyniad cytundebol sicrhau budd cymdeithasol ehangach yn ogystal â diben craidd y contract.
- ii. Bydd y Cyngor, wrth ddatblygu manylebau contractau, yn ystyried p'un a ellir cynnwys cymal budd cymunedol. Gall cymalau o'r fath gynnwys recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, datblygu busnesau bach a mentrau cymdeithasol a lleihau gwastraff. Ein nod yw dewis cyflenwr o dan broses dendro sy'n mynd y tu hwnt i delerau sylfaenol y contract ac sy'n sicrhau manteision a gwelliannau ehangach ym mywydau preswylwyr Bro Morgannwg a'r amgylchedd.

## 5.10 Moeseg

- i. Yn ogystal â gofynion deddfwriaethol, mae'r Cyngor yn credu bod caffael moesegol a chyfrifol yn rheidrwydd o ran yr economaidd ac o ran enw da. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymgorffori safon foesegol yn ein prosesau caffael. Rydym yn ymrwmo i sicrhau arferion masnach foesegol o safon uchel ar draws ein gweithgareddau caffael ac felly rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr gadw at y gofynion hyn a dangos ymrwymiad tebyg yn eu busnesau eu hunain.
- ii. Bydd y Cyngor yn ystyried materion cymdeithasol perthnasol yn ystod cam dylunio'r gwaith prynu ac yn ystyried hanes y cyflenwr o ran deddfwriaethau hawliau dynol a cham-wahaniaethu. Yn ogystal, bydd caffael moesegol yn helpu'r Cyngor i gynnal ei statws fel sir Masnach Deg.
- iii. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern yn drosedd ddifrifol ac yn mynd yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae gan hyn nifer o ffurfiau, gan gynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfodaeth a masnachu pobl, yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt oll yw dwyn rhyddid person gan berson arall er mwyn cam-fanteisio arno er budd personol neu fasnachol. Nid yw'r Cyngor yn goddef caethwasiaeth a masnachu pobl o gwbl. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn rhan o'n cadwyni cyflenwi nac unrhyw ran o'n busnes. Felly, byddwn yn gwneud ein gorau i:
  - nodi ac asesu meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
  - lliniaru'r risg o achosion o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi.
  - monitro meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi; ac
  - amddiffyn chwythwyr chwiban.

- iv. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol am ddioddefwyr caethwasiaeth neu fasnachu pobl posibl, fel y cyflwynir gan adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym hefyd yn ymrwmo i weithio i sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth a masnachu pobl.
- v. Bydd yr holl gyflenwyr posibl yn cael eu holi yn ystod y cam cyn-gymhwysio am gydymffurfio ag adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ddangos diwydrwydd dyladwy a thrylwyredd deallusol i atal caethwasiaeth yn eu cadwyni cyflenwi eu hunain. Ni fydd y Cyngor yn llunio contract gydag unrhyw sefydliad sy'n torri Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

## 5.11 Cydraddoldeb

- i. Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wasanaethu'r gymuned gyfan y maent ynddi. Mae'r Cyngor yn cydnabod Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r dyletswyddau penodol i Gymru; mae pob un ohonynt yn defnyddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli cydraddoldeb ym maes caffael ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a thegwch yng ngwasanaethau'r Cyngor.
- ii. Wrth gaffael, bydd y Cyngor yn cadw at dair dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo:
  - ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad oes ganddynt nodweddion gwarchodedig; a
  - meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodweddion gwarchodedig.
- iii. Wrth gyflawni gweithgareddau caffael a reoleiddir gan Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyhoeddus 2004/18/EC, bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i:
  - p'un a yw'n briodol i'r meini prawf o ran dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol; ac
  - a yw'n briodol nodi amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.
- iv. Mae'r Cyngor yn ymrwmo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth ddarparu gwasanaethau a'r ffordd y mae'n gweithredu fel sefydliad. Wrth gyflawni unrhyw weithgareddau caffael, bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'w bolisiâu corfforaethol, megis y Polisi Cydraddoldeb, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae'r polisiâu a'r cynlluniau hyn yn helpu i wneud cyflogaeth a gwasanaethau yn fwy hygyrch ac mae'r Cyngor yn disgwyl i sefydliadau y mae'n gwneud busnes â nhw gefnogi'r polisiâu a'r cynlluniau hyn.
- v. Bydd y Cyngor yn gweithio, pan fo'n bosibl, gyda hyrwyddwyr Cydraddoldeb â'r nod o ymgorffori arfer gorau yn ei brosesau caffael ei hun a phrosesau ei gadwyn gyflenwi ar gyfer y saith nodwedd warchodedig sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth
- vi. Byddwn hefyd yn asesu effaith ein gweithgareddau ac yn ystyried pa gamau,

o fewn paramedrau deddfwriaethol, y gallwn eu cyflawni i hyrwyddo cydraddoldeb mewn caffael drwy ddefnyddio busnesau a gynorthwyr. Mae deddfwriaeth caffael cyhoeddus yn galluogi cyrff cyhoeddus ddefnyddio caffael i hyrwyddo busnesau a gynorthwyr a gweithdai a rhaglenni gwaith a warchodir. Mewn busnes a gynorthwyr, mae dros 50% o gyflogeion wedi'u cofrestru'n anabl. Mae busnes a gynorthwyr yn rhan bwysig o'r ymgyrch i helpu pobl anabl i integreiddio i'r gweithle, cynyddu annibyniaeth, a hybu iechyd a lles. Wrth gaffael felly, bydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i ddefnyddio busnesau a gynorthwyr. Pan fo contractau'n rhy fawr neu gymhleth i'w gyflawni gan fusnes a gynorthwyr, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i gynigwyr posibl am ei nod o annog busnesau o'r fath ac yn eu hannog i ddefnyddio busnes a gynorthwyr fel is-contractwr neu bartner.

## 5.12 Y Gymraeg

- i. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- ii. Ein nod yw cyhoeddi hysbysebion cenedlaethol a roddir ar safle gwerthwchigymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg wrth ryngweithio â'i gwsmeriaid a'i gontractwyr yn unol â'r deddfwriaeth gyfredol.

## 5.13 Cynaliadwyedd

- i. Mae cynaliadwyedd yn ymwneud â mwy na materion amgylcheddol. Mae'n ymwneud â datblygu ffyrdd o gydbwyso cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb. Mae'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd yn effeithiol, defnyddio adnoddau naturiol yn ddarbodus a sicrhau lefelau twf economaidd uchel a sefydlog. Mae'n ymwneud â gwneud y gorau i ymgorffori safon foesegol ym mhrosesau caffael y Cyngor. Mae'n ymwneud â hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol fel y nodir drwy gydol y Polisi a'r Strategaeth hon, a meddwl sut y bydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau a wnawn heddiw yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.
- ii. Gellir defnyddio caffael cyhoeddus fel sbardun i gyflawni ein hamcanion lles. Drwy ymgorffori cynaliadwyedd yn y broses gaffael bydd y Cyngor yn arwain ym maes datblygu cynaliadwy. Bydd penderfyniadau caffael yn sicrhau, waeth beth a brynir, y gellir diogelu'r amgylchedd lleol a hefyd osgoi effeithiau amgylcheddol andwyol yn y gadwyn gyflenwi. Wrth brynu, bydd y Cyngor yn defnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ymateb i'r her o ddiogelu a gwella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd heb beryglu twf economaidd gan gydnabod y posibilrwydd o'r tensiwn a gwrthdaro y gall fod rhyngddynt.
- iii. Bydd goblygiadau cynaliadwyedd yn cael eu hystyried ar gyfer holl gaffael y Cyngor. Bydd swyddogion yn sicrhau bod cyflenwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion cynaliadwyedd wrth ddarparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn pennu mai Gwerth Gorau yw'r cyfuniad gorau posibl o gostau a manteision oes gyfan i fodloni gofynion penodol. Wrth ystyried nwyddau drud sy'n defnyddio pŵer, bydd dadansoddiad cost gydol

oes hefyd yn cael ei gynnal yn unol â safiad y Cyngor ar reoli carbon.

- iv. Bydd ein penderfyniadau caffael yn ystyried amrywiaeth o faterion, yn amrywio o gyfleoedd i gefnogi busnesau bach i gyfle cyfartal, caethwasiaeth fodern a'r economi leol.
- v. Rydym yn cydnabod bod y pwysigrwydd o leihau gwastraff yn ystyriaeth allweddol arall, e.e. defnyddio plastigau untro. Byddwn yn ymwybodol o effaith ein penderfyniadau ar yr amgylchedd, sef un o'n hasedau mwyaf, ac yn cydnabod y gall ein Polisi a'n Strategaeth Gaffael fod yn sbardun pwysig o ran sicrhau ein bod ni'n sefydliad sy'n amgylcheddol gyfrifol.

## 5.14 Effeithlonrwydd

- i. Mae bod yn effeithlon yn sail i bopeth a wna'r Cyngor. Os ydym am barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da a gwella'r hyn a gyflawnir, yna rhaid i effeithlonrwydd fod wrth wraidd gweithgarwch caffael.
- ii. Mae'r Cyngor yn mynnu defnyddio dull corfforaethol o brynu a gyflawnir drwy gaffael gwell. Rhaid i hyn leihau cost nwyddau a gwasanaethau drwy gaffael yn well er mwyn helpu i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn costau refeniw i gefnogi targed effeithlonrwydd corfforaethol y Cyngor yn seiliedig ar ein gofynion ariannu ein hunain.
- iii. Felly, bydd yr holl weithgareddau caffael yn ymwybodol o'r gofyniad i sicrhau arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol. Fel lleiafswm, nod y Cyngor yw talu llai am yr un faint a thalu'r un faint am fwy. Mae'r gofyniad i wella a chyflawni arbedion effeithlonrwydd yn rhan annatod o weithgarwch caffael.

## 6 Mesur Perfformiad

- i. Mae angen i'r Cyngor fesur canlyniadau gweithgarwch caffael er mwyn nodi meysydd i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas ag arbedion ariannol a sicrhau gwasanaethau o ansawdd gwell. Mae mesur perfformiad yn sicrhau bod caffael yn cyfrannu at gyflawni amcanion cenedlaethol a chorfforaethol, yn helpu i gynllunio a defnyddio adnoddau prin yn well ac yn dangos gwerth am arian. Bydd mesur cyfraniad ac effeithlonrwydd y Strategaeth Gaffael yn sicrhau y dilynir y Strategaeth, y caiff ei gwirio ac y'i defnyddir fel sylfaen.
- ii. Mae Rheoli Contractau yn hanfodol i'r cylch caffael, a bydd y Cyngor yn:

1	Dadansodd i	Nodi adnoddau presennol a'r angen i gaffael
2	Cynllunio	Nodi'r llwybr caffael priodol
3	Gwneud	Gwerthuso a dyfarnu Contract
4	Adolygu	Rheoli Contract a chynllunio ar gyfer gadael y Contract

## 7 Monitro

Bydd y gwaith o gydymffurfio â Pholisi a Strategaeth Gaffael y Cyngor yn cael ei fonitro mewn nifer o ffyrdd. Byddwn yn:

- mapio gweithgarwch caffael;
- casglu gwybodaeth rheoli sy'n manylu â phwy y mae'r Cyngor yn gwario ei arian ac ar beth;
- gwerthuso'r defnydd o gytundebau cydweithredol;
- cadw cofnod o arbedion a wneir;
- sefydlu rhaglen hyfforddi sydd wedi'i hanelu at y staff sy'n gwneud gwaith caffael;
- cynhyrchu a diweddarau Cod Ymarfer Caffael;
- estyn y broses o gyflwyno gwe-Gaffael ac e-Gaffael; ac
- ehangu'r defnydd o'r cerdyn prynu corfforaethol (cerdyn P).